



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) drafft 2017

Ionawr 2017

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	3
Cwestiynau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion	4
Sylwadau cychwynnol	9
Sut bydd AGIC yn symud arolygiadau ymlaen?	10
Beth a ystyriwyd wrth benderfynu ar y ffi arfaethedig?	11
Graddfa ffioedd	11
Amrywiol	12
Sylwadau ar faterion cysylltiedig a chrynodeb o'r ymatebion	13
Sylwadau ychwanegol a wnaed gan ymatebwyr	21
Rhestr yr ymatebwyr	23

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig creu cyfundrefn newydd, fwy effeithiol ar gyfer rheoleiddio practisau deintyddol preifat drwy gyflwyno Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"). Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros 12 wythnos, oedd yn gofyn am farn ar newidiadau mawr i'r modd y caiff deintyddion a'u timau, a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau deintyddol mynediad uniongyrchol preifat eu rheoleiddio.

Agorwyd yr ymgynghoriad ar 29 Ionawr 2016 a daeth i ben ar 22 Ebrill. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 9 cwestiwn, oedd wedi eu gosod mewn dogfen fel ffurflen ac roedd y ffurflen ar gael ar-lein er hwylustod dychwelyd drwy'r e-bost. Roedd yr 8 cwestiwn cyntaf yn rhoi dewis i'r ymatebwyr o atebion *Ydw* neu *Na* ac wedyn yn gadael lle ar gyfer sylwadau. Roedd cwestiwn 9 yn gwahodd unrhyw sylwadau nad ymdriniwyd â hwy mewn mannau eraill. Derbyniodd yr ymatebwyr lythyr cydnabod safonol yn cadarnhau bod eu hymateb wedi ei dderbyn.

Rhydd y ddogfen hon grynoded o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd gan yr Is-adran Polisi Deintyddol oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid allweddol. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Rydym yn gwerthfawrogi eich barn a chymerir eich sylwadau i ystyriaeth wrth ddrafftio "Rheoliadau 2017" yn derfynol.

Bydd Rheoliadau 2017 yn gweithredu ochr yn ochr â dau set arall o Rheoliadau:

1. Rheoliadau Cofrestru Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, fydd yn egluro'r gofynion o ran y broses gofrestru, gan gynnwys y wybodaeth a'r dogfennau y bydd angen i ymgeiswyr eu darparu ar gyfer AGIC, a'r gofynion mewn perthynas â cheisiadau i ddiddymu cofrestriad ac amrywio neu ddileu amodau.
2. Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Estyn Cymhwysiad Rhan 2 i Bractisau Deintyddol Preifat) (Cymru) 2017, fydd yn addasu'r pwerau yn Rhan 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2002 y gwneir Rheoliadau 2017 a'r Rheoliadau Cofrestru oddi tanynt.

Pan fydd y Rheoliadau hyn wedi eu cytuno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd Cangen Ddeintyddol Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau cysylltiedig ar gyfer timau deintyddol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth syml i gynorthwyo timau i gydymffurfio â'r Rheoliadau. Er enghraifft, bydd yn cyfeirio timau at ganllawiau Cymru ar reoli heintiau a'r archwiliad cenedlaethol cysylltiedig y gall timau practis ei ddefnyddio.

Ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 8 o ymatebion mewn ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth y cyrff canlynol:

Y trydydd sector - 2

Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd - 1

Cyngor Iechyd Cymunedol – 1

Cyrff a sefydliadau deintyddol proffesiynol - 2

Corff rheoleiddio gofal iechyd – 1

Pwyllgor Deintyddol Lleol – 1

Cwestiynau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion

Rhoddodd rhai ymatebwyr naratif manwl i gefnogi eu hymateb cychwynnol. Mae'r prif bwyntiau wedi eu crynhoi yn yr adran ddilynol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad at y "ffi gofrestru". Dan y system newydd, ni fydd ffi gofrestru gychwynnol gydag AGIC, ond fe fydd yna ffi flynyddol. Rydym wedi cadw'r term "ffi gofrestru" yn y ddogfen hon lle mae'n ddyfyniad uniongyrchol.

Cwestiwn 1. Cofrestru Practis: Ydych chi'n cytuno â'r newid o gofrestru deintyddion unigol i gofrestru practisau deintyddol sy'n darparu unrhyw ddeintyddiaeth breifat?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
7	1	0	0

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon y bydd y newidiadau a gynigir yn gymorth i sicrhau dull mwy cyson o ymdrin â'r safonau ansawdd a diogelwch sy'n cael eu cymhwyso i'r holl bractisau deintyddol tra'n cefnogi system reoleiddio fwy cadarn. Byddai hefyd yn cydreddeg â'r modd y caiff practisau deintyddol y GIG a phreifat eu harolygu a'u rheoleiddio yn Lloegr.

Awgrymwyd bod y costau ychwanegol a achosir yn anghymesur ar gyfer y practisau hynny yn y GIG sy'n darparu cymharol ychydig o ofal preifat o gymharu â'r system flaenorol pan oedd deintyddion unigol yn cofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yn hytrach na'r practis yn ei gyfanrwydd fel dan y system newydd arfaethedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r newid arfaethedig i gofrestru practis. Ystyrir y sylwadau am gostau yn fanylach o dan ein hymateb i Gwestiwn 6

Cwestiwn 2. Mynediad uniongyrchol at Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol (GGDP): Ydych chi'n cytuno bod rhaid i Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol sy'n darparu gofal deintyddol mynediad uniongyrchol preifat yn eu hadeiladau eu hunain gofrestru fel practis mynediad uniongyrchol preifat gydag AGIC?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
8	0	0	0

Cytunai pob ymatebwr y dylai'r un broses gofrestru ac arolygu fod yn berthnasol i bractisau Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol sy'n darparu mynediad uniongyrchol preifat ag sy'n berthnasol i wasanaethau deintyddol cyffredinol. Roedd ar un ymatebwr eisiau eglurder a fyddai hyn yn cynnwys technegwyr deintyddol clinigol (TDC) a hylenwyr deintyddol â'u practis eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r gefnogaeth hon. Gallwn gadarnhau y bydd y Rheoliadau yn cynnwys yr holl weithwyr gofal deintyddol proffesiynol (GGDP) y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn caniatáu iddynt ddarparu mynediad uniongyrchol. Mae hynny'n cynnwys therapyddion deintyddol, hylenwyr deintyddol, a TDC.

Cwestiwn 3. (rhan gyntaf) Ansawdd a Diogelwch: Ydych chi'n cytuno â'r materion ansawdd a diogelwch sydd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau drafft?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
8	0	0	0

Sylw ychwanegol gan ymatebwr – *Dylai practisau deintyddol arddangos eu sgôr yn eu harolygiad diweddaraf, yn debyg i hylendid bwyd.*

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth hon fydd o gymorth i sicrhau bod yr holl bractisau (preifat, y GIG a chymysg preifat/GIG) yn seiliedig ar yr un systemau rheoli ansawdd a diogelwch deintyddol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio system sgorio rifol ar gyfer unrhyw un o feysydd gofal iechyd. Fodd bynnag, mae practisau deintyddol yng Nghymru yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a chyhoeddir adroddiadau arolygu ar wefan AGIC. Gall cleifion a'r cyhoedd weld y rhain yn hawdd ac maent yn rhoi cryn fanylder ar amrediad eang o faterion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch mewn ymarfer deintyddol.

Cwestiwn 3 (ail ran): Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer materion ansawdd a diogelwch ychwanegol y dylid eu cynnwys yn Rheoliadau 2017

Roedd yr ymatebion am sicrwydd ansawdd a diogelwch ychwanegol yn cynnwys:

- Defnyddio menig tafladwy;
- Arddangos gwybodaeth i'r cyhoedd ar ddiheintio offer; ac
- Arddangos y safonau iechyd a diogelwch a chymwysterau aelodau'r staff.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae safonau a chanllawiau'r GDC ar ddadlygru a diheintio (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05-WHTM 01-05) yn dangos y disgwylir i dimau deintyddol ym mhob lleoliad ddefnyddio pâr newydd o fenig tafladwy ar gyfer pob claf. Mae amrywiaeth eang o systemau sicrwydd ansawdd a diogelwch yn eu lle i sicrhau bod timau deintyddol wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cydymffurfio ag arfer da mewn rheoli heintiau – gan gynnwys defnyddio menig tafladwy a diheintio offer. Bydd dogfen y canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am safonau'r GDC a WHTM 01-05.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i unrhyw ddarparwr gofal iechyd arddangos gwybodaeth am ddiheintio offer. Fodd bynnag, mae practisau deintyddol yng Nghymru yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac mae'r broses arolygu yn cynnwys adolygiad manwl o'r defnydd o offer wedi'i ddiheintio a chydymffurfio â'r holl gamau a gymerir yn y broses o lanhau a diheintio. Mae canllawiau Cymru gyfan ar weithdrefnau diheintio ar gael i bob practis yng Nghymru, ac ategir hyn gan archwiliad manwl er mwyn i bractisau adolygu pa mor dda y maent yn cydymffurfio â'r canllawiau.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i unrhyw ddarparwr gofal iechyd arddangos safonau iechyd a diogelwch. Mae yna amrywiaeth eang iawn o safonau y disgwylir i ddarparwyr gofal iechyd fod yn ymwybodol ohonynt a chydymffurfio â hwy. Mae arolygiadau practisau deintyddol AGIC yn cyd-fynd â Safonau Iechyd a Gofal Cymru.

Mae'n arfer da i bractisau deintyddol arddangos enwau a chymwysterau aelodau eu tîm deintyddol er nad yw hyn yn ofyniad yn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd. Mae Safonau'r GDC ar gyfer y Tîm Deintyddol yn nodi bod cleifion "yn disgwyl gwybod enwau'r rhai sy'n darparu eu gofal" a bod "rhaid i dimau deintyddol sicrhau bod cleifion yn cael gwybod enwau a rolau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sydd â rhan yn eu gofal."

Cwestiwn 4. Archwiliadau Datgelu a Gwahardd: Ydych chi'n cytuno â'r newid yn y gofynion Datgelu a Gwahardd fel bod rhaid i ddeintyddion, staff y practis a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau mynediad uniongyrchol o'u hadeiladau eu hunain gael archwiliad manylach y gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fydd y practis yn cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
8	0	0	0

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r newid arfaethedig. Nododd un ymatebwr - *byddai'n ddefnyddiol, pe bai claf yn gofyn, cael y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd.*

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth hon. Mae'n ofynnol i amrywiaeth eang iawn o bobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl gael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac nid yw Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, yn gofyn i'r bobl hynny ddarparu gwybodaeth am hyn ar gais defnyddwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd megis practisau deintyddol gael systemau cadarn yn eu lle ar gyfer gwiriadau DBS ar gyfer pob aelod o'r staff sydd angen hyn. Mae gwiriadau DBS yn un rhan o ystod o brosesau cyflogi er mwyn sicrhau arferion da o ran diogelu, er enghraifft, gwirio tystlythyrau, hyfforddiant a goruchwyliaeth.

Sylw ychwanegol gan ymatebwr – *a fyddai angen i staff sy'n meddu ar archwiliad DBS dilyn gael un arall ar gyfer y broses gofrestru gychwynnol gan ei bod yn ofynnol i staff gael gwiriad newydd gan y gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob 3 blynedd?*

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd cofrestriad cychwynnol practis gydag AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i staff sydd angen gwiriad DBS fod wedi cael hyn o fewn y 3 blynedd cyn cofrestru. Nid yw'n ofynnol iddynt gael gwiriad DBS newydd os cyhoeddwyd eu tystysgrif gyfredol o fewn y 3 blynedd flaenorol.

Cwestiwn 5. Defnyddio Laserau: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i newid y gofynion i gofrestru'r defnydd o laserau?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
8	0	0	0

Nododd un ymatebwr – *Sicrhau yn y rheoliadau nad yw defnyddwyr laserau Dosbarth 4 sy'n eu defnyddio ar gyfer triniaethau ar wahân i ddeintyddiaeth yn cael eu gadael allan o'r arolygiad.*

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd yn dileu'r angen i bractisau deintyddol gofrestru'r defnydd o laserau **ar gyfer triniaeth ddeintyddol** ar wahân, o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Fodd bynnag, bydd proses gofrestru'r practis gydag AGIC yn gofyn i bractisau hysbysu AGIC a ydynt yn defnyddio laserau, pa fath o laser y byddant yn ei ddefnyddio a rhoi sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant i ddefnyddio'r laser a gofynion iechyd a diogelwch cysylltiedig.

Bydd unrhyw laser a ddefnyddir yn y practis deintyddol **i ddibenion heblaw triniaeth ddeintyddol** yn ei gwneud yn ofynnol i'r practis gofrestru ar wahân o dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnwys archwilio laserau pan ddefnyddir y rhain yn y practis.

Cwestiwn 6. Ffioedd: Ydych chi'n cytuno â'r rhesymau dros gynyddu'r ffi i gofrestru gydag AGIC?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
4	2	0	2

Ydych chi'n cytuno â'r ffi arfaethedig?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
2	4	0	2

Sylwadau gan yr ymatebwyr:

Cafwyd nifer o themâu cyffredin ynghylch annhegwch canfyddiadol lefel y ffi flynyddol, yn enwedig o ran y gwahaniaeth ym maint practisau unigol a'r amrywiant yn lefel y driniaeth GIG a'r driniaeth breifat sy'n cael ei chyflawni. Codwyd hefyd fater tryloywder ynglŷn â'r hyn y mae'r ffi yn talu amdano o ran gweinyddu ac arolygu, ac amllder adolygu'r ffi flynyddol. Ystyrid bod nifer o sylwadau cyffredinol y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ar Reoleiddio Deintyddiaeth Breifat ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymateb hon.

Roedd un ymatebwr yn pryderu y byddai'r cynnydd yn y ffi yn cael ei drosglwyddo i gleifion ac felly'n cynyddu cost yr hyn sydd eisoes yn wasanaeth drud iawn.

Sylwadau eraill gan yr ymatebwyr:

- Dylai'r ffi fod yn uwch.
- Dylai'r adroddiad blynyddol fod ar gael ar y wefan.
- Nid yw'r ffi a awgrymir ar gyfer cofrestru yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Dylid penderfynu ar y ffi ar raddfa symudol, yn dibynnu ar faint y practis.
- Bydd practisau'r GIG yn rhoi cymhorthdal ar gyfer y cynnydd mewn ffioedd. Maent yn cael eu harolygu gan AGIC yn barod.
- Dylai unrhyw ffi gymryd rhaniad GIG/preifat y practis i ystyriaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gweler ymateb wedi'i goladu ar ôl cwestiwn 8.

Cwestiwn 7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER): Ydych chi'n cytuno â'r costau/buddion a amcangyfrifir o ran gweithredu'r Rheoliadau?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
2	3	0	3

Sylwadau gan ymatebwyr:

- Nid oes digon o wybodaeth wedi ei roi am yr asesiad effaith rheoleiddiol.
- Roedd peth anghytuno â'r rhesymeg dros y costau.
- Cwestiynai un ymatebwr effaith diddymu cofrestriad y person cofrestredig ar weddill y deintyddion o fewn practis.
- Y costau posibl i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gweler ymateb wedi'i goladu ar ôl cwestiwn 8.

Cwestiwn 8. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER) – costau disgwylidig: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y costau disgwylidig i bractisau / busnesau deintyddol?

Ateb Ydw	Ateb Na	Heb ateb Ydw na Na	Dim ymateb uniongyrchol
5	1	0	2

Sylwadau gan ymatebwyr: nodir y rhain yn union fel dyfyniadau

- Mae'r ffioedd deintyddol yn rhy uchel i gleifion.
- Mae cyfiawnhad bras dros y costau ond dylent aros yn gymesur.
- Efallai y bydd ymarferwyr yn ceisio adennill unrhyw gynnydd yn y ffioedd cofrestru drwy daliadau uwch am ymgynghoriadau a thriniaethau gan y cyhoedd.
- Y risg o bractisau yn adennill ffioedd cofrestru oddi wrth gofrestryddion unigol.
- Mae yna broblem y deintyddion sy'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad.
- Dim elw i gleifion na gwerth i bractisau.
- Mae'r rheoliadau yn or-fiwrocrataidd gan gynyddu'r costau gweinyddol i bractisau.
- Dylai'r ffioedd gyfateb i'r rheiny a delir gan Glinigau Annibynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i gwestiynau 6, 7 ac 8 yn ofalus gyda golwg ar y ffioedd arfaethedig gan fod themâu'r cwestiynau hyn yn gyffredin ac wedi ennyn ymatebion manwl gan y proffesiwn deintyddol.

Sylwadau cychwynnol

Ceir tua 450 o bractisau deintyddol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o bractisau yn darparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat hefyd, tra mae rhai yn darparu gwasanaethau'r GIG yn unig ac eraill yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig

Yn 2013 fe wnaeth Awdurdod Gwasanaethau Busnes Gwasanaethau Deintyddol y GIG (GD GIG) dynnu allan o arolygu practisau deintyddol yng Nghymru, oherwydd, i raddau helaeth, eu bod yn methu â recriwtio a chadw arolygwyr addas ac nad oedd amynt eisiau rhedeg system ar gyfer Cymru'n unig. Câi eu harolygiadau eu cynnal gan ddeintydd yn gweithio ar ei ben ei hun.

Nid oedd arolygiadau GD GIG yn cael eu gweld fel rhai cadarn bob amser. Roedd practisau deintyddol yn aml yn canslo'r arolygiad ac roedd rhai sefydliadau allanol yn bryderus ynglŷn â "deintyddion yn arolygu deintyddion" heb i arolygydd annibynnol ychwanegol fod yn bresennol.

Yn wreiddiol roedd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i GD GIG i arolygu practisau deintyddol oedd yn darparu gofal deintyddol y GIG. Er bod rhai practisau yn cynnig gofal y GIG a gofal preifat, ar wasanaethau'r GIG yr oedd y pwyslais. Ni chynhelid arolygiadau ar bractisau oedd yn gwbl breifat. Yr adeg honno roedd AGIC yn cofrestru deintyddion oedd yn darparu gofal deintyddol preifat pe baent yn talu ffi flynyddol, ond nid oedd yn arolygu unrhyw bractisau.

Yn 2013 peidiodd GD GIG ag arolygu practisau'r GIG a throsglwyddwyd y swyddogaeth i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – ynghyd â chyllid Llywodraeth Cymru oedd gynt yn cael ei roi i GD GIG. Roedd deintyddion oedd yn darparu gofal deintyddol preifat yn parhau i dalu ffi flynyddol i AGIC

Cynigir strwythur gwahanol ar gyfer y ffi flynyddol sy'n galluogi practisau i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gofal deintyddol preifat. Mae strwythur y ffioedd yn adlewyrchu a yw'r practis yn darparu gofal cwbl breifat ynteu gofal GIG a phreifat yn gymysg.

Dechreuodd AGIC arolygu practisau deintyddol ym mis Medi 2014 a chynhelir yr arolygiadau gan Reolwr Arolygu AGIC a deintydd Adolygu Cymheiriaid.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat arfaethedig yn gymorth i sicrhau ymhellach fod safonau rheoli ansawdd a diogelwch mewn practisau deintyddol preifat yn cyd-fynd â'r rhai yn y GIG. Mae'r Rheoliadau yn sail i'r broses sy'n galluogi AGIC i ddarparu arolygiadau dibynadwy, teg a chyson o bractisau deintyddol ym mhob math o bractisau er mwyn rhoi sicrwydd i dimau deintyddol, cleifion, y cyhoedd, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynnydd arfaethedig yn y ffi flynyddol o £75 fesul *deintydd* gydag AGIC i £500 fesul practis yn godiad o oddeutu 600% ac yn ddi-os mae'r ffigur pennawd hwn wedi peri pryder i rai ymatebwyr.

Dylid cadw mewn cof mai fesul practis yn hytrach na fesul deintydd unigol y mae'r ffi arfaethedig ac ar gyfer practisau mwy, gyda 4 neu fwy o ddeintyddion, nid yw'r ffi flynyddol newydd arfaethedig yn annhebyg iawn i'r ffi flynyddol gyfredol ar gyfer deintyddion unigol. Mae'r ffi bresennol o £75 yn cyfrannu tuag at gostau gweinyddol AGIC am gofrestru ac nid

oedd wedi ei bwriadu i dalu costau'r arolygiad / adolygiad cymheiriaid a'r broses adrodd yn llawn.

Sut y bydd AGIC yn symud arolygiadau ymlaen?

Mae AGIC, sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru, yn derbyn y rhan fwyaf o'i chyllid gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan AGIC awdurdod i godi ffioedd ar y rheiny sy'n dymuno cofrestru fel darparwyr gofal deintyddol yng Nghymru.

Caiff y ffi ei defnyddio tuag at gostau gweithgareddau cofrestru AGIC, sy'n cynnwys gweithgareddau cysylltiedig â gwasanaethau monitro, arolygu a rheoleiddio.

Bydd AGIC yn cwblhau'r cylch presennol o arolygiadau practis er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r practisau wedi cael eu harolygu. Caiff amllder arolygiadau practis o hyn ymlaen ei adolygu yng ngoleuni tystiolaeth o'r cylch cyntaf, a'r risgiau/manteision fyddai'n gysylltiedig â chylch arolygu 3-blynedd.

Cynhelir arolygiadau AGIC gan reolwr arolygu AGIC profiadol, ynghyd â deintydd adolygu cymheiriaid (adolygydd allanol sy'n ddeintydd â phrofiad ymarferol cyfredol o ddeintyddiaeth). Mae'r arolygwyr a'r deintyddion adolygu cymheiriaid yn weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i safon uchel a dylid talu'n briodol iddynt am y swyddogaeth y maent yn ei chyflawni.

Bydd AGIC yn arolygu nifer fwy o bractisau ar ôl i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd ddod i rym. Bydd yn ofynnol i'r practisau mynediad uniongyrchol, sydd heb gofrestru ar hyn o bryd, gofrestru o dan y system newydd a bydd gan AGIC bwerau i arolygu'r practisau ychwanegol hynny, unwaith y byddant wedi cofrestru.

Efallai y bydd angen i AGIC gyflogi arolygwyr ychwanegol a recriwtio deintyddion adolygu cymheiriaid ychwanegol i sicrhau bod y tîm arolygu yn gallu ymgymryd â'r holl arolygiadau fel y cynlluniwyd, a chyhoeddi'r adroddiadau dilynol yn brydlon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag AGIC a rhanddeiliaid deintyddol i sicrhau bod y system arolygu mor effeithlon ag sydd modd.

Beth a ystyriwyd wrth benderfynu'r ffi arfaethedig?

1. Costau cynnal arolygiad practis. Mae arolygiad practis deintyddol yn costio £2,544 ar gyfartaledd.
2. Amllder arolygiadau. Ar hyn o bryd mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol bob 3 blynedd, p'un a ydynt yn rai GIG yn unig neu GIG a phreifat yn gymysg. Mae AGIC hefyd wedi arolygu rhai practisau cwbl breifat lle maent yn ganghennau o bractis GIG.
3. Yr angen am broses syml ac effeithlon – un ffi ar gyfer yr holl bractisau sy'n gymorth i gadw costau gweinyddol i lawr i'r eithaf yn hytrach na graddfa symudol yn dibynnu ar faint practis a'r gyfran o wasanaethau preifat a ddarperir. Mewn practisau sy'n darparu gofal GIG a gofal preifat hefyd, nid oes systemau i benderfynu'n ddibynadwy pa gyfran o'r amser sy'n cael ei wario ar wasanaethau'r GIG neu ar y gwasanaethau preifat. Byddai angen cryn ymdrech i bractisau ddarparu'r wybodaeth hon.

4. Nid oes ffi ar wahân ar gyfer cofrestru cychwynnol
5. Mae'r ffi o £500 y flwyddyn a delir gan ddarparwyr tebyg eraill sydd angen cofrestru gydag AGIC o dan y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol, er enghraifft, practisau meddygon teulu preifat a gwasanaethau sy'n defnyddio laserau megis parlyrau harddu.
6. Ffioedd y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar adeg yr ymgynghoriad (mae'r rhain wedi newid ychydig ers hynny):
https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20150323_guidance_providers_cqc_fees_2015-16.pdf

Mae'r CQC, rheoleiddiwr annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr yn gofyn am ffioedd blynyddol rhwng £600 a £1,300 y flwyddyn gan ddarparwr deintyddol gydag un lleoliad cofrestredig yn unig. Mae'r ffioedd yn amrywio o £1,600 i £60,000 ar gyfer darparwyr sydd â mwy nag un lleoliad cofrestredig (paragraffau 44 i 46 o ganllawiau ffioedd CQC).

Mae ffioedd CQC yn dilyn graddfa symudol yn dibynnu ar nifer y cadeiriau deintyddol ym mhob lleoliad. Mae darparwr ag 1 gadair ddeintyddol yn un lleoliad yn talu £600 y flwyddyn, gyda 2 gadair ddeintyddol yn talu £750 y flwyddyn ac felly ymlaen hyd at fwy na 6 chadair ddeintyddol mewn un lleoliad lle mae'r ffi yn £1,300.

Graddfa Ffioedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn deall y dylai'r ffi flynyddol ar gyfer practis deintydd sengl (hynny yw, practis ag un deintydd yn unig) sy'n darparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat hefyd fod yn llai na'r ffi ar gyfer practisau â mwy nag un deintydd neu bractisau sy'n darparu gofal preifat yn unig.

Fodd bynnag, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflwyno graddfa symudol gymhleth o ffioedd sy'n debygol o fod yn fiwrocrataidd.

Cynigiwn felly newid y ffi unffurf arfaethedig o £500 a chyflwyno graddfa syml o ffioedd fel a ganlyn:

- Bydd practisau deintydd sengl sy'n darparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat hefyd yn talu ffi flynyddol o £300 i AGIC.
- Bydd yr holl bractisau eraill yn talu ffi flynyddol o £500 i AGIC. Mae hyn yn cynnwys practisau mynediad uniongyrchol preifat.

Mae practisau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn ddarostyngedig i systemau sicrwydd ansawdd y GIG megis adolygu contract gyda'r Bwrdd Iechyd, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r practisau hyn.

Amrywiol

Mynegodd ychydig o ymatebwyr bryder ynghylch trosglwyddo ffioedd ychwanegol i gleifion. Mae gofal deintyddol preifat yn dibynnu ar amrywiaeth eang o faterion y tu allan i gost cofrestru gydag AGIC. Mae ffioedd cleifion preifat yn cymryd gofynion gofal clinigol cleifion unigol i ystyriaeth a materion eraill gan gynnwys y deunyddiau a ddefnyddir, yr amser a

gymerir i gyflawni gweithdrefnau penodol, a'r sgiliau arbenigol a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan y tîm deintyddol.

Mae yna nifer fechan o driniaethau deintyddol nad ydynt yn cael eu hariannu gan y GIG ac nad ydynt ar gael ond yn breifat. Bydd deintyddion yn trafod y dadansoddiad manwl o ffioedd preifat gyda chleifion.

Mae'n bwysig nodi bod costau cleifion deintyddol y GIG yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru ac nad oes modd i bractisau deintyddol gynyddu ffioedd y GIG.

Awgrymodd un ymatebwr raddfa symudol o ffioedd, yn dibynnu ar y gyfran o ddeintyddiaeth y GIG a'r gyfran o ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cadw gwybodaeth fanwl ar hyn yn rhy feichus ar bractisau. Byddai angen cofnodi gwybodaeth am gleifion p'un a ydynt yn gleifion y GIG yn gyfan gwbl ynteu'n gwbl breifat ynteu'n cael eu trin o dan y ddwy system (a phan fydd cleifion yn cael eu trin o dan y ddwy system, i ba raddau y mae'r driniaeth yn breifat neu y GIG). Byddai hefyd yn gofyn am wybodaeth am faint y mae'r practis yn ei ennill drwy ofal preifat a gofal y GIG. Byddai rhaid cyfrifo hyn yn ôl-weithredol gan na all practisau bob amser ragweld yn union nifer y cleifion fydd yn gofyn am ofal preifat. Felly, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â defnyddio'r math hwn o raddfa symudol i gyfrifo ffioedd.

Mynegodd ymatebwyr eraill bryder ynghylch y modd y gall prif ddeintyddion drosglwyddo'r ffi ymlaen i ddeintyddion eraill sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, nid lle Llywodraeth Cymru yw gwneud sylwadau ar y penderfyniadau busnes hyn a wneir gan bractisau unigol.

Ni châi unrhyw newid yn y ffi flynyddol ei weithredu heb drafodaeth fanwl rhwng Llywodraeth Cymru, AGIC a'r proffesiwn deintyddol yng Nghymru, a gall fod yn destun proses ymgynghori.

Mae ffi flynyddol practis preifat yn draul practis cyfreithlon ac fel y cyfryw gellir ei osod yn erbyn treth.

Cwestiwn 9. Sylwadau eraill: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, rhowch eich sylwadau isod, os gwelwch yn dda.

Cafwyd nifer o sylwadau oedd yn cyfeirio'n benodol at y rheoliadau drafft. Maent yn cael eu dyfynnu air am air:

RHAN 1: CYFFREDINOL

Rheoliad 7(b) a pharagraff 12 o Atodlen 1: Adolygu'r Datganiad o Ddiben

Sylwadau:

- *The requirement to give 28 days' warning is bureaucratic and difficult to comply with. If staff leave at short notice or join at short notice giving 28 days warning to HIW will be difficult. As it is written the resignation of a DCP will have to be communicated and then a further communication is required on appointment. It may not always be possible to provide this concurrently. We believe "within 28 days of commencement of employment" to be more reasonable and workable.*

- *The practice should be allowed a reasonable time to inform HIW of changes to the SoP specifically around the turnover of staff.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid diwygio'r gofyniad hwn. Rydym yn cynnig ei newid i'w gwneud yn ofynnol i bractisau deintyddol hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru am unrhyw ddiwygiad o'r fath o fewn 28 diwrnod i'r adolygiad. At hynny, bydd y canllawiau yn ei gwneud yn glir nad oes angen i'r awdurdod cofrestru (AGIC) gael ei hysbysu am yr holl newidiadau yn staff Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol (GGDP) practis deintyddol ar yr amser y byddant yn digwydd. Mae'n ddigon i roi rhestr o'r GGDP wedi ei diweddarau i AGIC yn flynyddol.

Bydd yr un trefniadau yn wir am bractisau mynediad uniongyrchol preifat.

Rheoliad 8 (7): Polisiâu a Gweithdrefnau

Sylw: *The requirement to make available policies and procedures on request could be onerous. Unreasonable patients may ask for all policies and procedures. We believe the Regulations should reflect this with a clause reflecting that practices should not have to comply with unreasonable requests. This could be similar to a Data Protection Act request for data.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y canllawiau yn ei gwneud yn glir na ddisgwylir i bractisau ddarparu copïau o bolisiâu os gofynnir, y gellir mynd â hwy allan o'r practis, nac ateb galw afresymol am gopïau unigol. Disgwylir i bractisau gadw llawlyfr o'u holl bolisiâu i'w ddefnyddio gan y staff a gellir dangos hwn i eraill os gofynnir.

Rheoliad 8(8): Polisiâu a Gweithdrefnau

Sylw: *The retention of **all** versions of **all** policies and procedures for three years is bureaucratic and unreasonable. We propose this is replaced by a clause asking for retention of all policies and procedures for a period of one year past their expiration.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ymgynghori â Chronfa Risg Cymru (CRC) a darparwr indemniad deintyddol ynglŷn â'r rheoliad hwn ac mae CRC yn cadarnhau bod hyn yn arferol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Gall polisiâu ymwneud yn uniongyrchol â chydymffurfio â Rheoliadau ac arferion clinigol da (e.e. polisi ar reoli heintiau/dadlygru) neu ymwneud â materion penodol i'r practis fel trefniadau gwyliau'r staff. Mae'n amlwg bod rhaid i dimau deintyddol practis a'r staff gael mynediad parod at gopïau o'r polisiâu presennol, a chynghorir practisau i fabwysiadu system syml i sicrhau bod y staff wedi darllen y polisiâu a'r gweithdrefnau. Mae hefyd yn

bwysig sicrhau nad yw polisïau a gweithdrefnau, sydd wedi dod i ben, ar gael yn rhwydd oherwydd y gallai staff eu defnyddio mewn camgymeriad yn lle'r polisïau cyfredol.

Y cyngor gan CRC a darparwr indemniad deintyddol yw ei bod yn briodol cadw'r polisïau sydd wedi dod i ben a bydd y canllawiau yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ar archifo polisïau, sydd wedi dod i ben, yn ddiogel rhag ofn y bydd angen cyfeirio atynt.

RHAN 2: PERSONAU COFRESTREDIG

Rheoliad 9 (1) Addasrwydd y darparwr cofrestredig

Sylw: *When the fitness to practice of a registered provider is at issue and they are deemed unfit to carry out private work it could affect any partner in the practice. Similarly if the manager was deemed unfit this might also affect the ability of dentist practitioners in the practice to perform. Therefore this ruling must not preclude them from continuing to practice for the interim until new registration is facilitated.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai darparwyr cofrestredig a rheolwyr sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr a rheolwyr fod yn ddyfal yn rhagweld ac yn ymateb i ddisgwyliadau rheoliadol. Rydym hefyd yn disgwyl iddynt wella eu gwasanaethau yn barhaus, gan edrych allan am arfer gorau ac ymateb i ddymuniadau ac adborth y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Lle nodwyd pryderon ynghylch addasrwydd darparwr cofrestredig neu reolwr, rydym yn disgwyl y byddant yn cymryd y cyfrifoldeb am ymdrin â'r diffyg, gan wneud yr hyn sydd orau er mwyn sicrhau cydymffurfriad.

Lle ceir diffygion enbyd a risg ddifrifol i iechyd a lles cleifion, efallai y bydd angen gweithredu ar frys a gallai hyn arwain at ddiddymu'r cofrestriad. Gwneir pob ymdrech i edrych ar ddewisiadau eraill posibl, gan ein bod yn deall yr effaith y gall diddymu ei chael ar y practis. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu mai diddymu'r cofrestriad yw'r unig ddewis, yna bydd y darparwr neu'r rheolwr yn euog o drosedd os bydd ef neu hi yn parhau i redeg neu i reoli'r practis.

Rheoliad 10 (1) Penodi rheolwr

Sylw: *Where a manager must be designated even for single-handed practices and the name of a responsible person provided, it should clarify that the manager could be a dentist.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob practis benodi rheolwr. Nid yw'n ofynnol i'r darparwr benodi rheolwr ond os yw'r darparwr yn sefydliad/partneriaeth; yn anaddas i reoli; neu os nad yw'n bwriadu bod yn gyfrifol am y practis yn llawn amser. Nid yw'r Rheoliadau yn atal deintydd rhag bod yn rheolwr ond bydd rhaid iddo ateb holl yr ofynion addasrwydd i fod yn rheolwr. Caiff hyn ei egluro yn y canllawiau cysylltiedig.

Rheoliad 12 (2) Person Cofrestredig – gofynion cyffredinol a hyfforddiant

Sylw: *This proposes that providers and registered managers undertake “such training as appropriate to ensure they have the skills necessary for managing the private dental practice”. It does not advise what level of training is appropriate or indeed what training is suitable. Would a dental degree meet these requirements? Dental practices are efficient small businesses which do not require this over-regulation. We believe this clause to be unclear, unnecessary, and not achievable. We propose it be deleted.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y risg o beidio â gwneud hyfforddiant priodol yn ofynnol, yn enwedig ar gyfer practisau mwy.

Mae darpariaethau tebyg wedi eu cynnwys mewn Rheoliadau eraill, a wnaed o dan ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, ar gyfer hyfforddiant priodol o bryd i'w gilydd i'r darparwr cofrestredig a'r rheolwr er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gynnal neu reoli'r sefydliad neu'r asiantaeth.

Mae'r termau "priodol" a "o bryd i'w gilydd" yn cydnabod bod practisau deintyddol preifat yn amrywio o ran maint ac fel y cyfryw y dylai'r gofynion hyfforddiant fod yn gymesur "gan roi sylw i faint y practis deintyddol preifat". Mae'n ofynnol i rai sydd wedi cofrestru â'r GDC ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus ac efallai y bydd hyn yn bodloni gofynion y GDC a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Nid yw'n briodol i bennu'r lefel a'r math o hyfforddiant oherwydd y bydd hyn yn amrywio yn ôl cymwysterau a phrofiad yr unigolyn. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau cysylltiedig.

Rheoliad 13(6)(c) Ansawdd triniaeth a gwasanaethau eraill a ddarperir

Sylw: *Regarding the provision of occupational health advice, the BDA would be concerned if a totally private practice was expected to do this without recourse to NHS occupational services. This could be potentially very costly and of questionable value.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni ddisgwylir i bractisau deintyddol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau lechyd Galwedigaethol i'w staff.

Mae practisau sy'n darparu unrhyw ofal deintyddol GIG drwy gontract gyda'r Bwrdd Iechyd yn cael mynediad at wasanaethau lechyd galwedigaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i dimau deintyddol y GIG. Mae hyn yn cynnwys practisau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol GIG a GIG/preifat yn gymysg. Ni all timau practisau cwbl breifat gael mynediad at y gwasanaeth hwn, ond nid yw hyn yn eu hatal rhag cael mynediad at eu meddyg teulu yn y GIG am gyngor lechyd galwedigaethol nac rhag cael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu at Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol y GIG.

Beth bynnag, bydd angen i'r person cofrestredig sicrhau bod staff wedi cwblhau gwiriadau lechyd cyn cyflogi yn llwyddiannus, gan gynnwys unrhyw gliriadau lechyd ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer staff sy'n cyflawni Gweithdrefnau sy'n Dueddol i Amlygiad. Caiff y Rheoliadau eu diwygio yn unol â hynny.

RHAN 3: RHEDEG PRACTIS DEINTYDDOL PREIFAT

Rheoliad 15(2) Preifatrwydd, urddas a pherthynas

Sylw: *This clause does not meet the Disability Discrimination Act 2010 since it has omissions including age. The relevant protected characteristics are age; disability, gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex and sexual orientation. We propose this clause reflects the DDA 2010.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Y ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethu berthnasol sy'n nodi'r nodweddion gwarchodedig yw Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai'r Rheoliadau adlewyrchu'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf 2010 a bydd yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol.

Rheoliad 17 (2)(b) Staffio

Sylw: *With reference to appraisals the BDA does not consider this stipulation appropriate for self-employed dentists. However, if this is with reference to DCPs who are employees then this is acceptable.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru, GDC a sefydliadau proffesiynol eraill o fewn addysg deintyddol yn cydnabod gwerth arfarniad ac mae systemau'r GIG yn hybu defnyddio arfarniad ar gyfer pob aelod o staff. Cred Llywodraeth Cymru y dylai aelodau tîm practis sydd wedi cofrestru gyda'r GDC gael arfarniadau. Gall staff eraill y practis gael arfarniadau os teimlir ei fod yn fuddiol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw'n ymarferol i'r deintydd(ion) uchaf gael eu harfarnu gan aelodau eraill y tîm, ac efallai y bydd yr unigolion hynny'n dymuno ystyried systemau datblygiad proffesiynol eraill megis adolygiadau cymheiriaid gyda phractisau cyfagos. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cadw'r Rheoliad hwn ond egluro yn y canllawiau sut y mae'n gymwys i wahanol aelodau o'r tîm deintyddol.

Rheoliad 23(4)(a) Ymweliadau gan y darparwr cofrestredig

Sylw: *We do not believe sporadic, statistically invalid interviews with patients will identify problems with the running of the practice ("other services") or with the standard of treatment of individual performers. The provision of a report on the conduct of dental practice is more red-tape with no benefit. It will not identify problems HIW might seek to find. Complaints from patients are already comprehensively dealt with in these regulations. The BSA provides detailed and statistically valid feedback on patient satisfaction. Patient surveys and*

“suggestions box” can be available at HIW inspections. These three areas provide ample feedback from patients.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaed mewn perthynas â Rheoliad 23(4)(a). Rydym o'r farn fod adborth cleifion yn werthfawr iawn ac rydym yn nodi:

- bod disgwyl i bersonau cofrestredig ofyn yn rheolaidd am farn cleifion (gan gynnwys disgrifiadau o'u profiadau o ofal a thriniaeth) (Rheoliad 16(2)(b));
- ei bod yn ofynnol eisoes i bersonau cofrestredig sefydlu gweithdrefn gwynion a chofnodi pob cwyn (Rheoliad 21);
- bod Rheoliad 23(4)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion cofrestredig archwilio cofnodion unrhyw gwynion;
- bod AGIC yn gofyn am adborth gan gleifion a barn cleifion fel rhan o'u harolygiadau practis.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod mai am gyfnod byr o amser y mae cleifion deintyddol ar y safle ac efallai y byddai cyfweiliadau yn ystod ymweliadau gan y darparwr cofrestredig yn fwy priodol ac o fwy o fudd mewn amgylchiadau lle mae cleifion ar y safle am gyfnodau hirach, er enghraifft, dros nos yn yr ysbyty.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio'r Rheoliad hwn drwy ddileu'r gofyniad yn Rheoliad 23(4)(a) i gyfweld cleifion neu eu cynrychiolwyr.

Dylid nodi bod Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Gwasanaethau Deintyddol (y cyfeirir atynt fel BSA yn sylw'r ymatebwr uchod) yn darparu adborth manwl ac ystadegol ddilys ar foddhad cleifion ar gyfer cleifion sy'n cael triniaeth o dan Reoliadau'r GIG, nid cleifion sy'n derbyn gwasanaethau deintyddol preifat.

Rheoliad 24 Sefyllfa ariannol

Sylwadau:

- *The provision of accounts is intrusive and would be a major difference between Wales and what is required from colleagues in England. There may be a considerable number of companies and these may have no dental connection and importantly no bearing on patients or the dental practice under consideration. We believe this regulation should be omitted. The police will have access to such records if fraud is suspected.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad yn ofalus ac wedi penderfynu diwygio'r Rheoliad hwn. Rydym yn llwyr ddisgwyl i bersonau cofrestredig fod yn gyfrifol am gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y practis yn ariannol hyfyw i ddibenion cyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn y datganiad o ddiben. Byddwn, felly, yn newid Rheoliad 24 am ofyniad i bersonau cofrestredig gymryd y camau rhesymol y cyfeirir atynt uchod. Fodd bynnag, pan ystyrir bod angen gwneud hynny, gall AGIC ddefnyddio pwerau i ofyn am wybodaeth ariannol gan bersonau cofrestredig.

Rheoliad 27(2) Rhybudd am newidiadau

Sylw: *The departure and recruitment of dentists and DCPs is an ongoing process. Having to inform HIW every time this happens is bureaucratic onerous and of no benefit to patients. The practice already has to update its Patient Information Leaflet (PIL) annually; we consider this to be sufficient.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu ag AGIC ar y mater hwn ac rydym yn cytuno nad oes angen y wybodaeth hon fel y nodwyd a'i bod yn debygol o osod baich diangen ar bractisau. Mae'r gofyniad i ddiweddarau'r Datganiad o Ddiben a Thaflen Wybodaeth y Practis yn flynyddol yn cynnwys hysbysiad am newidiadau yn aelodau'r tîm deintyddol. Felly bydd rheoliad 27(2)(a) i (d) yn cael eu dileu.

Rheoliad 27(2) (e) Rhybudd am newidiadau

Sylw: *The practice will often not know of criminal cautions of dentists/DCPs. They are already required to tell the GDC of such information and the police pass such information to the GDC.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r sylw hwn ac yn deall na fydd y person cofrestredig efallai yn ymwybodol bod gan gyflogai rybudd neu gollfarn. Rydym hefyd yn cydnabod o dan safonau'r GDC ar gyfer y Tîm Deintyddol, bod rhaid i'r rhai sydd wedi eu cofrestru "hysbysu'r GDC os ydych yn destun achos troseddol neu os gwneir dyfarniad rheoleiddio yn eich erbyn yn unrhyw le yn y byd". Efallai yr adroddir hefyd wrth y GDC am ran yr heddlu, yn dibynnu ar y drosedd. Er y gall y mater ddod i sylw'r cyflogwr, nid yw'n ofynnol i rai sydd wedi eu cofrestru gyda'r GDC hysbysu eu cyflogwr am unrhyw euogfarn na rhybudd. Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn cytuno i gael gwared ar y gofyniad yn Rheoliad 27(2)(e).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adolygu'r agweddau eraill ar reoliad 27(2) ac, er y credwn ei bod yn bwysig hysbysu AGIC am newidiadau yn achos y person cofrestredig, rydym yn ystyried ei bod yn llai pwysig yn achos deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis. Rydym felly yn cynnig hepgor rheoliad 27(2)

Rheoliad 30(4) Marwolaeth person cofrestredig

Sylw: *The period allowed for personal representatives to run a dental surgery is six months. This is insufficient and we propose this be increased to 12 months. Experience in England has shown six months to be insufficient to allow representatives to grieve; assess and understand the dental practice and then dispose of the practice.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Wrth ddatblygu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, rydym wedi ystyried gofynion presennol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n caniatáu amser estynedig o chwe

mis yn dilyn marwolaeth person cofrestredig i'r cynrychiolwyr personol redeg y sefydliad neu'r asiantaeth heb fod wedi'u cofrestru mewn perthynas ag ef. Roeddem yn ystyried yr amserlen hon yn rhesymol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad ac yn sylweddoli y gall yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â marwolaeth Person Cofrestredig osod straen sylweddol ar dîm y practis ac aelodau'r teulu y mae angen iddynt ddelio ar unwaith â'r effaith ar y practis.

Felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Rheoliad 30 i ddarparu (a) cyfnod cychwynnol o 28 diwrnod pan y gall cynrychiolwyr personol y darparwr ymadawedig redeg y practis deintyddol preifat heb eu cofrestru; (b) cyfnod ychwanegol o'r fath o hyd at chwe mis fel y bydd AGIC yn penderfynu; a (c) cyfnod pellach o'r fath o hyd at chwe mis os bydd AGIC yn derbyn cais i gofrestru fel darparwr y practis deintyddol preifat hwnnw. Mae'r cyfnodau amser hyn yn gyson â'r darpariaethau yn Rheoliadau'r GIG.

Paragraff 2 o Atodlen 3: Gwybodaeth sy'n ofynnol – tystysgrif cofnod troseddu

Sylwadau:

- *The reference to “criminal record certificate” should be referred to as “Disclosure and Barring Service checks” as per the gov.uk website.*
- *Of particular note is the fact that DBS is not a requirement for GDC and furthermore a mixed practice would not need to do this. Informing of a change of staff every time is onerous and unnecessary.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cydnabyddir y gelwir gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) bellach yn archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, mae'r tystysgrifau a gynhyrchir yn parhau i gael eu galw yn dystysgrifau cofnodion troseddol yn unol â Deddf yr Heddlu 1997 (gweler a.113A). Bydd y gwahaniaeth hwn yn cael ei esbonio yn y canllawiau. Rydym yn cydnabod nad yw Safonau'r GDC ar gyfer Timau Deintyddol yn cyfeirio'n benodol at wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unigolion cofrestredig. Fodd bynnag, mae'r gwiriadau hyn yn ofynnol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd eraill yng Nghymru ac mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau gofal deintyddol.

Ymdriniwyd â'r sylw *“Informing of a change of staff every time is onerous and unnecessary”* yn yr ymateb i Reoliad 7(b).

Paragraff 3 o Atodlen 3: Gwybodaeth sy'n ofynnol – tystlythyrau ysgrifenedig

Sylw: *The requirement for two references is too prescriptive. Some young employees may have only one referee and no previous employers. This would particularly apply to those in training. (Other staff may have worked at the practice for decades and two employers' references may not be available.) We propose this is amended to one reference for new staff not in training.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae trafodaeth gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain yn cadarnhau nad yw gofyn am ddau dystlythyr ar gyfer pob darpar aelod o staff cofrestredig GDC bob amser yn ymarferol. Efallai mai newydd gymhwyso y byddant, yn dal i fod mewn hyfforddiant neu ond wedi gweithio mewn practis bach ac na allant felly gael ond un dystlythyr.

Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddiwygio paragraff 3 i wneud un dystlythyr o leiaf yn ofynnol. Fodd bynnag, bydd rhagor o wybodaeth wedi ei chynnwys yn y canllawiau mewn perthynas â nifer y dystlythyrau sydd eu hangen ar gyfer rhai sydd wedi cofrestru gyda'r GDC.

Paragraff 3 o Atodlen 7: Ffioedd – y ffi i amrywio amod gofrestru

Sylw: *We believe the costing with fees of £500 or £250 is excessive, indefensible, and should be proportionate to the actual 'condition' changed. Many of these changes will be administrative changes of the data HIW hold and require little intervention by HIW. Even if another inspection is required this should not and need not be as comprehensive as a full inspection and need only include inspection of the specific change of condition. There is also no detail as to what changes fall into which category (£500 and £250).*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Yr ydym wedi gofyn am gadarnhad gan AGIC y bydd amrywiad mawr angen ymweliad â'r practis o leiaf, ac mewn lleiafrif bach o achosion, arolygiad practis ac adroddiad gan Reolwr Arolygu ac Adolygydd Cymheiriaid.

Diffinnir amrywiad bach fel amrywiad amodau lle nad yw'n angenrheidiol i AGIC arolygu'r sefydliad neu'r asiantaeth er mwyn penderfynu ar y cais. Er na fyddai yna arolygiad, byddai AGIC yn cynnal swm sylweddol o waith i sicrhau bod yr holl risgiau sydd ynghlwm â'r amrywiad wedi cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad.

Darperir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau.

Paragraff 5 o Atodlen 7: Ad-dalu ffioedd blynyddol

Sylw: *Why is the maximum for this set at 50% and why not 75%? If a provider cancelled in the first quarter there would be three quarters left i.e. £375 and not the maximum 50% (i.e. £250) stated in the draft regulations. We ask for this to be changed accordingly.*

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus yr adborth hwn ar y cyd ag AGIC ac rydym yn cytuno ei bod yn rhesymol i roi ad-daliad o hyd at 75% o'r ffi flynyddol, os cyflwynir cais i ddiddymu cofrestriad gan ddarparwr cofrestredig o fewn chwe mis i'r dyddiad y mae'r ffi i fod i gael ei thalu.

Sylwadau ychwanegol a wnaed gan ymatebwyr

Access to NHS dentistry is restrictive (rydym yn credu mai "restricted" ddylai hwn fod).

Er nad yw'r sylw hwn yn ymwneud â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau mynediad teg at ofal deintyddol y GIG.

The costs of private dentistry are prohibitive.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl mewn pennu'r ffioedd sy'n daladwy gan gleifion am wasanaethau deintyddol preifat.

Are private dental care professionals adequately trained and inspected?

Rhaid i'r holl Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol fod wedi eu cofrestru gyda'r GDC a bod wedi eu hyfforddi, ennill cymhwyster a'u hindemnio ar gyfer y rôl y maent yn ei chyflawni. Mae GGDP sy'n gweithio mewn practisau sy'n darparu unrhyw faint o ofal GIG wedi eu cynnwys yn rhaglen gyfredol practisau deintyddol AGIC. Ar hyn o bryd, nid yw practisau GGDP mynediad uniongyrchol cwbl breifat yn cael eu harolygu gan AGIC oherwydd na all y GGDP hyn ar hyn o bryd gofrestru gydag AGIC. O dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd bydd yn ofynnol i bob practis GGDP mynediad uniongyrchol preifat gofrestru gydag AGIC a chael eu harolygu gan AGIC.

Mental health patients should have equitable access to dental services.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau mynediad teg at ofal deintyddol y GIG ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig y rheiny a all ei chael yn anodd cael mynediad at ofal.

There should be more information for patients about the materials dentists use for the various treatments available.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gofyn i wasanaethau deintyddol neu ofal iechyd arall gyflwyno gwybodaeth am yr amrywiaeth eang a chymhleth o ddeunyddiau a ddefnyddir mewn gofal clinigol. Mae deintyddion yn defnyddio amrywiaeth eang o ddeunyddiau: mae rhai ohonynt wedi'u bwriadu i ateb anghenion clinigol penodol. Dylai timau deintyddol drafod deunyddiau â chleifion unigol, yn dibynnu ar y driniaeth sydd ei hangen.

Payment of the annual fee could be on a single date each year for every practice.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod talu'r ffi flynyddol ar un diwrnod yn unol â phroses y GDC ac y byddai efallai yn fwy syml i ddarparwyr mewn practisau deintyddol preifat.

Byddai'n rhaid cyflwyno unrhyw broses o'r fath mewn ffordd ddoeth, gam wrth gam, i gyd-fynd â symud o gofrestru deintyddion unigol i gofrestru practisau. Bydd rhaid ystyried y dyddiad a ddewisir er mwyn osgoi unrhyw faich ariannol a achosir drwy ofyn amdano ar yr un dyddiad ag y mae ffioedd GDC yn daladwy.

DCPs should be registered first.

O dan y Rheoliadau, bydd yn ofynnol i bob practis GGDP mynediad uniongyrchol preifat gofrestru gydag AGIC a chael ei arolygu gan AGIC. Hyd yma, ni fu unrhyw arolygiadau ar y math hwn o bractis. Bydd y Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r practisau hyn gyflwyno eu cais i gofrestru o fewn chwe mis i'r dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, a chaiff y practisau hyn eu harolygu yn fuan ar ôl cwblhau'r cofrestrriad.

Rhestr ymatebwyr

Cyf	Ymatebwr
001	Vin Murtagh, Llais Cymunedol Conwy
002	Fatima Grzesiak, Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
003	Bryan Beardsworth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
004	Cerys Jones, Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru
005	Dr Caroline Seddon, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain (Cymru)
006	Roger Pratley, Pwyllgor Deintyddol Lleol Morgannwg
007	Matthew Thomas, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
008	Nyree Connell, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol